

DOLEN Y TAB – 5 22–23 Mai 2020

Cylchlythyr wythnosol yw hwn i ledaenu newyddion teuluol, cyhoeddiadau neu ddiolchiadau i aelodau'r Tabernacl trwy gyfrwng e-bost, Facebook a gwefan y capel www.tabernacl.org. Cofiwch argraffu copi i'r aelodau hynny sydd heb gysylltiad â'r we. Anfonwch unrhyw newyddion sydd gennych i'w rannu erbyn nos lau yn wythnosol i: gehpengwern@yahoo.co.uk / 01443 225205. Diolch.

CASGLIAD CYMORTH CRISTNOGOL

Diolch yn fawr i bawb sydd wedi ymateb i'r apêl ar ei newydd wedd eleni, a hynny ar adeg pan mae pobl dlawd ac anghenus y byd ag angen ein help yn fwy nag erioed. Rhag ofn na chawsoch gyfle eto i gyfrannu, mae'r apêl ar agor am wythnos arall.

Gallwch anfon siec yn daladwy i Capel y Tabernacl Cyf, gyda nodyn yn enwi Cymorth Cristnogol at:
Mr Arwyn Lloyd Jones, Tŷ Newydd, 39 Parc Bryn Derwen, Llanharan, Pontyclun CF72 9TU
neu wneud trosglwyddiad banc:

Côd didoli 30 – 96 – 72
Rhif cyfrif 03607499
Cyfeirnod Cymorth Cristnogol

Bydd yr apêl yn cau ddydd Sul Mai 31^{ain}.

DIOLCH YN FAWR

TAFOD Y TAB

Gobeithiwn gyhoeddi rhifyn digidol o'r *Tafod* ddydd Sul 5 Gorffennaf i gyd-fynd â'r wythnos gyfatebol yn 1870 pan gynhaliwyd achlysur swyddogol ail-agor Capel y Tabernacl. Unwaith yn rhagor gwahoddwn eich cyfraniadau – yn adroddiadau, portreadau, erthyglau, lluniau ac yn blaen – a hynny **erbyn dydd lau 25 Mehefin** (ac **nid** 25 Gorffennaf fel y nodwyd yn gamarweiniol yn rhifyn yr wythnos ddiwethaf). Dylid anfon y cyfraniadau ar e-bost i gehpengwern@yahoo.co.uk, neu neges destun i 07710 237327. Gallwch hefyd bostio cyfraniadau at: Gwilym ac Eleri Huws, Tal-y-fan, 9 Gerddi'r Sofran, Meisgyn, Pontyclun CF72 8SZ.

Cofiwch, bydd y rhifyn hwn yn un arbennig iawn oherwydd ynddo byddwn yn cynnwys atodiad 'Dathlu'r 150' wedi ei olygu gan Emlyn Davies yn olrhain hanes yr achos dros y cyfnod hwn.

GWARCHOD BYD NATUR

Gwerthfawrogi'r pethau bychain o'n cwmpas a chadw llygad ar warchod ein dyfodol hefyd – dyma oedd byrdwn y ffilm a baratowyd gan y Twmiaid ym mis Ionawr ac a welwyd am y tro cyntaf ar dudalen Facebook y Tabernacl fore Sul diwethaf. Braf oedd gweld eu hwynebau unwaith yn rhagor wrth iddynt gyflwyno bwletin newyddion dychmygol o gyfnod yn y dyfodol. Ond fe'n sboreiddiwyd wrth eu gwylio yn adrodd hanesion am drychinebau erchyll allai daro gwledydd ar draws y byd os na fydd ein cenhedlaeth ni yn newid ein ffordd o fyw. Pan baratowyd y ffilm, wyddai neb beth oedd yn ein haros rownd y gornel wrth i ni gael ein caethiwo yn sgil pandemig COVID-19. Ond mae neges y ffilm, fel y pwysleisia Heulyn Rees, yr un mor berthnasol heddiw ag erioed. Mae'n wir bod heriau mawr o'n blaenau ac mae ymateb mewn ffordd gadarnhaol yn allweddol ac yn gyfrifoldeb arnom fel eglwys ac fel unigolion. Cawsom gyfle annisgwyl dros y ddeufis diwethaf i sylwi ar a gwerthfawrogi gogoniant y greadigaeth, fel y gwnaeth Gwynn ap Gwilym yn ei gerdd 'Tyrd' – dewis priodol iawn a ddefnyddiwyd i gloi'r ffilm:

'Tyrd, anghofiwn y cyfan
A gwelwn ogoniant ein gwinllan
Yn y pethau bychain . . .'

Gobeithio y bydd rhyfeddu at y 'pethau bychain' y gwanwyn hwn yn sbardun i ni ddiogelu byd natur i'r dyfodol. Diolch iddynt am rannu'r neges amserol hon gyda ni.

AMLENNI GWYN A BROWN

I'r rhai hynny ohonoch sy'n arfer cyfrannu'n rheolaidd i gronfa'r eglwys (amlenni gwyn) a/neu gronfa'r elusennau (amlenni brown) drwy'r plât casglu, byddem yn ddiolchgar petaech yn parhau i gyfrannu yn ôl eich arfer drwy anfon siec yn daladwy i *Capel y Tabernacl Cyf.* at ein Trysorydd: Mr Arwyn Lloyd Jones, Tŷ Newydd, 39 Parc Bryn Derwen, Llanharan, Pontyclun CF72 9TU. Neu gallwch wneud trosglwyddiad banc i gyfrif y capel, gan nodi Casgliad Amlenni Gwyn neu Casgliad Amlenni Brown ynghyd â'ch rhif aelodaeth yn y blwch lle gofynnir am gyfeirnod: Enw'r cyfrif: Capel y Tabernacl Cyf. Cod didoli: 30 – 96 – 72; Rhif y cyfrif: 03607499.

ARLWY BORE SUL 24 MAI

(Detholiad o'r oedfaon fydd ymlaen ar y radio, S4C a'r we.)
10.30 www.annibynwyr.org
Yr Oedfa Ddigidol dan ofal y Parchg. Gwyn Elfyn Jones.
11.00 S4C
Oedfa yng nghwmni'r Parchg. Hywel Meredydd Davies, Cildwrn, Llangefni.
12.00 Radio Cymru
Dan arweiniad Ethan Williams a Ieuenctid Urdd Gobaith Cymru.